



---

# **ADRODDIADAU ARHOLWYR TGAU**

---

**TGAU (NEWYDD)  
ASTUDIAETHAU CREFYDDOL –  
CRISTNOGAETH A BWDHAETH**

**HAF 2018**

Mae gwybodaeth am ffiniau graddau'r pwnc hwn ar gael ar wefan gyhoeddus CBAC fel a ganlyn:

<https://www.wjecservices.co.uk/MarkToUMS/default.aspx?l=en>

### **Dadansoddiad o'r Canlyniadau Ar-lein**

Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar wefan ddiogel CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i'r staff yn y ganolfan gyrchu'r wefan hon.

### **Adroddiad Ystadegol Blynyddol**

Mae'r Adroddiad Ystadegol blynyddol (a gyhoeddir yn ystod ail hanner Tymor yr Hydref) yn cynnwys canlyniadau cyffredinol pob arholiad y mae CBAC yn ei weinyddu.

#### **Uned**

3120NE Cristnogaeth a Bwdhaeth

#### **Tudalen**

1

## ASTUDIAETHAU CREFYDDOL

### TGAU (NEWYDD)

Haf 2018

### CRISTNOGAETH A BWDHAETH

#### RHAN A – CREDOAU, DYSGEIDIAETH AC ARFERION CRAIDD: CRISTNOGAETH

**1. (a) Beth yw ystyr 'ymgnawdoliad' i Gristnogion.**

Gwnaeth y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr naill ai ennill y ddau farc llawn, neu dim marc.

Gwnaeth yr ymgeiswyr a fethodd ag ennill marciau gynnig amrywiaeth eang o atebion a oedd yn cynnwys bron pob maes o gred ac arfer Cristnogol. Un ateb poblogaidd, bron mor boblogaidd â'r ateb cywir – oedd cymysgu hyn ag ailymgnawdoliad; ac nid yr ymgeiswyr a oedd yn astudio Hindŵaeth fel eu hail grefydd yn unig.

Yn aml, roedd yn ymddangos bod yr ymgeiswyr a enillodd hanner y marciau yn adnabod y cysyniad yn ddigon da, ond gwnaethant roi ateb arwynebol heb unrhyw ddatblygiad nac enghraifft syml. Gwnaeth ymgeiswyr eraill ymdrechu'n rhy galed i'w esbonio'n fyrfyr a drysu eu hunain neu grwydro oddi wrth y ffeithiau.

Y pwyntiau allweddol yma yw y dylai ymgeiswyr ddysgu diffiniadau clir a syml, neu i hynny gael eu haddysgu iddynt; yn enwedig o ran cysyniadau anodd fel yr un yma, lle gall ceisio ateb yn fyrfyr arwain at ddryswch.

**(b) Disgrifiwch ddysgeidiaethau Iesu am drysor a chyfoeth.**

Enillwyd yr ystod lawn o farciau ar y cwestiwn hwn ond roedd yn ymddangos nad oedd llawer o ymgeiswyr yn gwybod y pethau penodol yr addysgodd yr Iesu am y pwnc hwn. Cyfeirir at ddau ddarn clir iawn yn y Fanyleb (a darnau gwledol cofiadwy – gwyfyn a rhwd a lladron yn torri i mewn / Lasarus yn cardota wrth y giât tra bod cŵn yn llyfu ei friwiau a'r dyn cyfoethog yn y fflamau) ac roedd yr ymgeiswyr a oedd yn gwybod amdanynt ac a wnaeth eu defnyddio, wedi ennill marciau da bob amser.

Roedd rhai wedi gwneud defnydd da o ddameg Lasarus ond roedd gormod wedi rhoi crynodeb syml o'r stori heb ei gymhwyso i'r testun ... rhoddwyd marciau iddynt am hynny, ond gwnaethant golli'r cyfle i ennill y marciau uchaf posibl.

Soniwyd yn achlysurol am agweddau eraill ar ddysgeidiaethau Iesu, fel peidio â gwasanaethu Duw a Mamon, dewis y llwybr cul, hatling y wraig weddw, a'r camel trwy grau'r nodwydd. Mae'r maes llafur yn cynnwys nifer cyfyngedig o weithiau gosod, (oherwydd nid yw pob ysgol yn cael yr un amser cwricwlwm wedi'i ddyrannu), ond gall ysgolion eraill ymhelaethu ar yr ateb, ac mae rhai ohonynt yn weledol a chofiadwy sy'n helpu'r ymgeiswyr i'w dysgu a'u cofio.

Gwnaeth ymgeiswyr hefyd gynnwys darnau Beiblaidd nad oedd yn rhan o'r cylch gorchwyl ar gyfer y cwestiwn. Roedd colledion a dioddefaint Job yn boblogaidd ond yn yr Hen Destament mae hwn, ac felly nid yw o ddysgeidiaethau Iesu.

Mae angen atgoffa ymgeiswyr i gadw at eiriad y cwestiwn. Nid yw cwestiynau ar y canlynol yn amrywiadau ar yr un cwestiwn (er y bydd gorgyffwrdd) – dysgeidiaeth Iesu / yr hyn y mae'r Beibl yn ei ddweud / beth gallai Cristnogion ei gredu ynglŷn â / agweddau Cristnogol at ... .

Cafwyd atebion addas i bob un o'r amrywiadau hynny ar gyfer y cwestiwn cyfredol (enghreifftiau o'r Hen Destament, beth mae Cristnogion yn ei 'wneud' ac ati), yn ogystal â meddyliau'r ymgeiswyr eu hunain ynglŷn â'r hyn y dylai Iesu fod wedi'i ddweud, wedi'u gosod yn achlysurol rhwng set o ddyfynodau mewn ymgais i'w ddilysu!

Pwyntiau allweddol yma yw: beth, yn benodol, mae'r cwestiwn yn ei ofyn... dylech wybod y darnau a roddwyd (maen nhw'n rhoi gwybodaeth glir, ac yn aml, dyma'r prif wahaniaeth rhwng ateb cyffredinol iawn a marciau llawn).

**(c) Esboniwch credoau Cristnogol am natur dynoliaeth.**

Unwaith eto, roedd ymgeiswyr naill ai'n gwybod hwn, neu'n cael cryn drafferth. Mae'n adran glir iawn yn y Fanyleb (ac mae'r geiriau'n cael eu hadleisio yn y cwestiwn hwn), cyfres o enghreifftiau penodol a chyfeiriadau Beiblaidd yn ei angori yng ngwreiddiau dynoliaeth (h.y. Genesis 1-3). Gellid synhwyro bod llawer o ymgeiswyr yn rhoio eu llewys i fyny yn feddyliol ac yn credu y gallent wirioneddol roi eu dannedd yn hyn – gan weithio drwy'r rhestr a datblygu rhai ohonynt – ac ennill marciau uchel. A'r unig gyfyngiad oedd pa mor fodlon oedden nhw i ysgrifennu yn helaeth a gwneud cyfiawnder â'r ffaith eu bod yn ceisio ennill 8 marc.

Yn anffodus, roedd yn ymddangos bod gormod ddim yn gwybod beth oedd yn cael ei ofyn. Roedd rhai wedi meddwl yn nhermau bod yn 'ddyngarol', ac felly wedi siarad am sancteiddrwydd bywyd ac ewthanasia (a fyddai'n gallu ennill marciau o fewn ateb a fyddai'n cael ei ddefnyddio fel datblygiad i ddelw Duw, ac felly bod pob bywyd yn sanctaidd a chysegredig), neu wedi ceisio gweithio drwy sut mae Cristnogaeth yn meddwl y dylai pobl / dynoliaeth ymddwyn, neu wedi rhoi adroddiad manwl o chwe diwrnod y Creu a arweiniodd at greu bodau dynol. Roedd yn ymddangos nad oeddent yn adnabod y cysyniad yr oedd y cwestiwn yn ei ofyn, a gwnaethant geisio dehongli'r gair dynoliaeth orau y gallent; neu'r gair 'natur'.

Unwaith eto, mae bod yn gyfarwydd â'r darnau a roddwyd o'r Beibl yn hollbwysig.

Bydd ymdrech yn cael ei wneud i nodi'r geiriad sydd yn y Fanyleb yn y cwestiynau (fel y digwyddodd yma, ac wrth gyfeirio at 'drysor' yn (b) yn gynharach), felly bydd ymgeiswyr yn elwa'n fawr os ydynt yn gyfarwydd ag ef.

**(ch) 'Gweddïo yw'r gweithgaredd pwysicaf i Gristnogion.'**

Enillwyd yr ystod lawn o farciau yn y cwestiwn hwn. Fodd bynnag, roedd yn ymddangos bod gormod o ymgeiswyr yn ennill marciau ym Mandiau 1 a 2. Roedd nifer yr ymgeiswyr na roddodd gynnig ar ateb cwestiwn gyda chynifer o farciau, ynghyd â marciau bonws SAG, yn destun pryder.

Roedd atebion da yn cynnwys diffiniadau syml o weddi, ystyriaeth a dadansoddiad o'r gwahanol fathau o weddïau, pwysigrwydd gweddïo, rhesymau gwahanol dros weddïo, a chynghor ar sut i weddïo, yn cynnwys Gweddï'r Arglwydd – lle roedd y cyfan yn y Fanyleb yn ogystal â'r cyfeiriadau Beiblaidd a ddarparwyd. Gwnaeth ymgeiswyr eraill gynnig rhywfaint o ddadansoddi (fel y mae'r disgrifyddion Band marcio yn gofyn amdano), gan awgrymu manteision gweddïo yn ogystal â'r agweddau negyddol, fel gweddïau gosod yn mynd yn rhywbeth i'w ddysgu ar y cof yn unig, a'r cwestiwn o weddïo o'i gymharu â gweithredu. Dyma lle roedd yr atebion gwell yn dechrau ystyried gweithgareddau amgen a lle'r oedd yr atebion gorau hefyd yn dadansoddi eu pwysigrwydd cymharol ochr yn ochr â gweddïo.

Roedd llawer o'r atebion hynny a oedd yn parhau yn y bandiau marcio is wedi methu â mynd i'r afael â gweithgareddau amgen.

Roedd yn ymddangos nad oedd rhai ymgeiswyr yn gallu gwahaniaethu rhwng gweddïo a chysyniadau ehangach yn ymwneud ag addoli a rhwng mynychu gwasanaethau'r eglwys neu'r capel; er hynny, roeddent yn gallu ennill rhai marciau trwy'r diffiniadau mwy cyffredinol hyn neu amgylchiadau gweddïo, ond gwnaethant gollir cyfle i ddefnyddio'r rhain fel enghreifftiau hawdd o weithgareddau eraill mwy pwysig neu lai pwysig y gallent fod wedi'u cymharu neu eu gwrthgyferbynnu â gweddïo.

Mae angen ystyried safbwyntiau amgen neu wahanol yng nghwestiwn (ch). Gellir gwneud hyn drwy gyfeirio at agweddau gwahanol ar y mater penodol a godir yn y cwestiwn (yn yr achos hwn, gweddï). Fodd bynnag, mae'r cwestiwn newydd hwn bron ddwywaith gwerth yr hen gwestiwn (d) yn y Manylebau A a B blaenorol. Er mwyn ennill marciau uwch, mae'n ymddangos y dylai ymgeiswyr gael eu hannog i chwilio am ddewisiadau amgen clir i'w trafod, er mwyn ymestyn eu hateb yn briodol; yn enwedig pan fo'r cwestiwn yn cyfeirio at yr eithafol, fel 'y pwysicaf' neu at safbwynt dadleuol, h.y. pa weithgareddau Cristnogol allai fod yr un mor bwysig neu'n fwy pwysig, a pham.

Unwaith eto, dylid bod yn ofalus i ddilyn geiriad y cwestiwn. Nid yw hyn yn golygu mai gweddïo yw'r 'peth' pwysicaf, ond y 'gweithgaredd' pwysicaf, ac felly, dylai ymgeiswyr ystyried gweithgareddau eraill i'w cymharu; nid yw 'credu yn Nuw yw'r peth pwysicaf' yn weithgaredd ynddo'i hun, na 'chredoau' eraill ychwaith heb ychwanegu'r 'arferion' allai arwain at hynny.

Roedd y problemau eraill a gododd yn ymwneud â dylanwad arferion o'r Manylebau blaenorol, am nad oeddent yn cyfateb yn dda i ofynion y cwestiwn hwn:

- Roedd modd gweld nifer o acronymau 'defnyddiol', hen a newydd, yn cael eu defnyddio ac mewn nodiadau bras ymgeiswyr ar frig eu tudalen. Roedd FARM i'w weld, yn ogystal ag ADIDAS, RAP ac eraill. Nid yw'r rhain o reidrwydd yn adlewyrchu gofynion y bandiau marcio newydd. Hefyd, efallai eu bod wedi bod yn addas i ateb byrrach, ond ar gyfer ateb llawer hirach a mwy gwerthfawr fel hwn, gallant fod yn gamarweiniol a chyfyngol. Gwnaeth rhai a ddefnyddiodd y strategaethau hyn roi atebion nad oedd yn gweddu'n dda i'r cwestiwn newydd.
- Er enghraifft, gwnaeth ymgeiswyr a ddefnyddiodd strwythur pedair rhan, tebyg i FARM, roi atebion lle nad oedd llawer yn berthnasol. Nid oedd yn ymddangos eu bod yn gwybod nad yw ystyried safbwyntiau Dyneiddwyr ac Anffyddwyr yn ofynnol ar gyfer Rhan A o'r papur hwn. Roedd nifer sylweddol o ymgeiswyr a wnaeth edrych yn ofalus iawn ar y mater o weddi Gristnogol yn deg iawn o safbwynt Dyneiddiwr, ac yna Anffyddiwr, ac yna aelod arall o grefyddau'r byd, ac yn olaf, llunio dim ond chwarter o'u hateb o safbwynt Cristnogol. Nid oedd y cwestiwn yn gofyn am hyn, roedd ei bwyslais yn llwyr ar safbwynt Cristnogol, ond eto, roeddent yn amlwg yn teimlo mai dyma oedd angen iddynt ei wneud!

Mae angen inni i gyd fod yn siŵr ein bod yn gwybod sut mae'r Fanyleb newydd yn gweithio a lle mae'n wahanol i'r rhai blaenorol.

## **SAG**

Y cwestiwn 1(ch), wrth gwrs, yw'r un cwestiwn ar y papur lle mae sillafu, atalnodi a gramadeg yn cael ei asesu'n benodol.

Byddai rhywun yn gobeithio y byddai ymgeiswyr yn cymryd mantais lawn o hyd at chwe marc bonws am sillafu, atalnodi a gramadeg. Mae wedi'i gysylltu'n strategol â'r cwestiwn ysgrifennu estynedig cyntaf, fel bod modd eu hasesu tra'u bod yn parhau i feddwl yn glir, heb fod wedi blino'n lân, a ddim eto'n rhedeg yn erbyn y cloc. Am yr un rheswm, os ydyn nhw'n amrywio'r drefn y maen nhw'n ateb y cwestiynau – fel mae rhai ymgeiswyr yn ei wneud – dylid ateb 1(ch) yn gynnar o hyd.

Fodd bynnag, gwnaeth gormod o ymgeiswyr ddangos dim llawer o ymwybyddiaeth y dylent dargedu'r chwe marc ychwanegol hynny yma. Roedd y camgymeriadau diangen hyn yn llawer rhy gyffredin:

- Dylai priflythrennau (yn enwedig i ddechrau brawddegau) ac atalnodau llawn fod yn ddisgwyliad lleiaf ar gyfer y mwyafrif helaeth.
- Mae arholwyr yn siŵr o fynd ar drywydd cam-sillafu geiriau pwnc allweddol fel *crefydd/crefyddol, credu/cred/crediniwr, Cristion/Cristnogaeth, offeiriad*, gan wybod pryd i ddefnyddio gweddio a phryd i ddefnyddio gweddi (camgymeriad cyffredin iawn).
- Brawddegau rhy hirwyntog sydd yn colli ystyr.
- Efallai bydd ymgeiswyr sydd â'u llawysgrifen yn tueddu i fod yn wastad yn y 4 neu'r 5 llythrennau olaf, yn cael eu cynghori i oedi ar eiriau allweddol, neu eu nodi mewn llythrennau bras hyd yn oed
- Dylid annog ymgeiswyr i wirio ateb 1(ch) yn gyflym (priflythrennau ar gyfer dechrau brawddegau, atalnodau llawn, enwau priod) cyn symud ymlaen.

Gall ennill marc da mewn SAG achub ateb gweddol.

## CREDOAU, DYSGEIDIAETH AC ARFERION CRAIDD: BWDHAETH

Mae angen i ymgeiswyr ddilyn y cyfarwyddiadau – yn enwedig yng nghwestiynau 3(b), (c), (ch) a 4 (b), (c). Roedd rhai ymgeiswyr yn rhoi safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol ym mhobman yn nghwestiynau 3 a 4.

Mae angen dysgu cysyniadau allweddol.

Mae angen rhoi mwy o bwyslais ar iaith grefyddol a ffynonellau awdurdod – roedd diffyg hyn mewn nifer o'r atebion.

Amseru – yng nghwestiwn 4 y gwelwyd y nifer mwyaf o gwestiynau heb eu hateb, o bosibl oherwydd bod yr amser wedi dod i ben. Fodd bynnag, ni welais unrhyw atebion pwyntiau bwled.

Roedd yr ymgeiswyr a oedd yn meddu ar sgiliau llythrennedd gwell yn tueddu i wneud yn well yn y cwestiynau (ch). Roedd gwell defnydd o iaith yn tueddu i alluogi iddynt lunio dadleuon a oedd yn haws i'w dilyn.

Mae angen gwneud rhywfaint o waith ar atebion (ch) – mae rhai ymgeiswyr yn hunanwerthuso eu hatebion yn hytrach na llunio barn ar ddilysrwydd y dadleuon.

- 2. (a)** Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu diffinio Wesak a rhoddodd nifer ohonynt enghraifft hefyd o'r hyn a allai ddigwydd yn ystod yr ŵyl. Dim ond rhoi disgrifiad o'r hyn a allai ddigwydd yn ystod Wesak a wnaeth rhai ymgeiswyr heb roi diffiniad o'r term.
- (b)** Atebwyd hwn yn dda ar y cyfan. Rhoddwyd marciau i ymgeiswyr am ddisgrifiadau o unrhyw un o ddigwyddiadau bywyd cynnar y Bwdha. Rhoddwyd marciau i ymgeiswyr a ddisgrifiodd y pedair golygfa, er bod y fanyleb ond yn rhestru cynenedigaeth, rhagfynegiad a bywyd yn y palas fel ei fywyd cynnar. Ni roddwyd marciau i ymgeiswyr a ddisgrifiodd ddigwyddiadau ar ôl y pedair golygfa (ymwrthodiad a goleuedigaeth yn benodol). Gwnaeth llawer o ymgeiswyr ddefnyddio iaith grefyddol (e.e. 'dukha' wrth ddisgrifio dymuniad ei dad i'w gadw draw oddi wrth ddiodefaint) ac roedd nifer bach yn gallu sôn am ysgrythur Fwdhaidd fel ffynhonnell awdurdod i'r hanesion hyn. Gwnaeth y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o ddigwyddiadau (cynenedigaeth, rhagfynegiad, bywyd yn y palas).
- (c)** Cafodd hwn ei ateb yn dda ar y cyfan gydag ymgeiswyr yn esbonio pob un o'r Pedwar Gwirionedd Nobl yn fanwl ac yn defnyddio iaith grefyddol briodol (dukha, tanha, nirodha, maga). Gwnaeth llawer gyfeirio at y tri gwenwyn fel achosion dioddefaint ynghyd â phrofiad y Bwdha o'r Pedair Golygfa. Roedd llawer o ymgeiswyr yn gallu defnyddio'r anogaeth yn y cwestiwn yn briodol ('dysgeidiaethau'r Bwdha') fel eu ffynhonnell awdurdod. Fodd bynnag, byddai cyfeirio at y Dhammapada wedi cael ei werthfawrogi. Gwnaeth llawer o ymgeiswyr ddefnyddio'r cydweddiad meddygol fel ffordd o esbonio dysgeidiaeth y Bwdha ar y Pedwar Gwirionedd Nobl, a rhoddwyd marciau am hynny.

- (ch) Cafwyd ychydig o atebion da iawn i'r cwestiwn hwn gan yr ymgeiswyr hynny a oedd wedi mynd i'r afael â'r gosodiad. Roedd yr atebion gwell yn defnyddio iaith grefyddol ac yn cyfeirio at rai ffynonellau o ddoethineb ac awdurdod, ond ni wnaeth unrhyw un grybwyll y Dhammapada. Yn anffodus, roedd yn ymddangos bod llawer o fyfyrwyr wedi camddeall byrdwn y cwestiwn gan ddisgrifio myfyrdod samatha, meta bhavana a vipassana yn unig. Lle roedd ymgeiswyr wedi gwneud yn dda, roeddent wedi defnyddio'r ffurfiau hyn o fyfyrdod i wneud pwynt. Yn gyffredinol, rhoddwyd dewisiadau priodol eraill i fyfyrdod, ond roedd yn ymddangos bod rhai ymgeiswyr wedi nodi dilyn y Llwybr Wythblyg heb sylweddoli bod myfyrdod yn rhan o'r Llwybr Wythblyg. Roedd yr atebion gwell fel arfer yn dangos lefel dda o sgiliau llythrennedd, gydag ymgeiswyr yn gwneud defnydd da o gysyllteiriau i strwythuro eu dadleuon (e.e. 'fodd bynnag', 'gan hynny', 'at hynny' ac ati.). Nid yw'r cwestiwn yn gofyn am ymateb personol. Fodd bynnag, rhoddwyd marciau i'r ymgeiswyr a roddodd farn bersonol yn gysylltiedig â'u hateb ac a gefnogodd hyn â thystiolaeth berthnasol gan eu bod yn dod i gasgliad ynglŷn â'r mater. Roedd yn ymddangos bod rhai ymgeiswyr wedi drysu wrth werthuso cryfder dadl arbennig, a gwnaeth nifer bach hunanwerthuso sut roedden nhw eu hunain wedi ateb y cwestiwn! Mae gofynion y cwestiwn hwn yn glir: trafod, dadansoddi, gwerthuso ac nid esbonio yn unig.

### **RHAN B – YMATEBION CREFYDDOL I THEMÂU ATHRONYDDOL: BYWYD A MARWOLAETH / DAIONI A DRYGIONI**

3. (a) Wedi'i ateb yn gywir ar y cyfan gyda diffiniad ac enghraifft. Fodd bynnag, roedd llawer o ymgeiswyr wedi drysu rhwng hyn a 'sancteiddrwydd bywyd'.
- (b) Mae angen i ymgeiswyr fod yn ymwybodol o'r cyfarwyddyd – o Gristnogaeth **neu** o Fwdhaeth – oherwydd gwnaeth nifer bach o ymgeiswyr ateb o'r ddau. Roedd hyn yn golygu ei bod yn annhebygol y byddent yn ennill y marciau uchaf oherwydd cyfyngiadau amser. Roedd yr atebion gwell yn cyfeirio at Genesis 1 a 2 ac yn gwahaniaethu rhwng stiwardiaeth ac awdurdod. Cyfeiriwyd at elusennau crefyddol mewn modd priodol ac effeithiol.
- (c) Gwnaeth y rhan fwyaf o ymgeiswyr ddilyn y cyfarwyddyd – credoau Cristnogol a Bwdhaidd. Rhoddodd llawer o ymgeiswyr atebion cyffredinol h.y. mynd i'r nefoedd/ karma da am ddaioni, a mynd i uffern/karma drwg am ddrygioni. Roedd atebion gwell yn mynd i'r afael â chredoau crefyddol mwy cymhleth gyda rhai ymgeiswyr yn esbonio syniadau Cristnogol am nefoedd, purdan ac uffern, yn ogystal â sôn bod nefoedd/uffern yn gyflwr meddwl yn hytrach na bywyd ar ôl marwolaeth mewn gwirionedd. Cyfeiriodd rhai ymgeiswyr at ddysgeidiaethau Cristnogol yn 1 Corinthiaid neu o wasanaeth angladd. Yn yr atebion am Fwdhaeth, soniodd y rhan fwyaf am samsara a chylch marwolaeth, pydredd ac aileni bydau ac am deyrnasoedd bodolaeth gwahanol. Roedd atebion gwell yn cynnwys y syniad o aileni o eiliad i eiliad yn ogystal ag o fywyd i fywyd. Yn anffodus, gwnaeth llawer o fyfyrwyr ddefnyddio'r gair ailymgnawdoliad yn hytrach nag aileni, gan ysgrifennu'n helaeth am gael eich aileni fel anifail o ganlyniad i karma negyddol. Nid yw'r fanyleb yn defnyddio'r gair ailymgnawdoliad. Roedd hefyd yn bryder fod llawer o fyfyrwyr wedi ysgrifennu am 'fynd i nirvana' wrth farw, fel pe bai nirvana yn lle (fel nefoedd) gan fod hyn yn dangos diffyg dealltwriaeth. Cyfeiriodd nifer bach o ymgeiswyr hefyd at safbwyntiau Dyneiddiol / anffyddiaeth/atheistaeth ynglŷn â bywyd ar ôl marwolaeth – nid dyna oedd y cwestiwn yn ei ofyn ac mae angen iddynt fod yn ymwybodol o'r cyfarwyddyd.



- (ch)** Roedd rhai ymgeiswyr wedi deall y cwestiwn hwn ac wedi mynd i'r afael â byrdwn y cwestiwn. Roedd yr atebion gwell yn pwysu a mesur y dadleuon drwy gyfeirio at ddehongliadau llythrennol ac anllythrennol y straeon yn Genesis a'r modd y gallai Cristnogion gwahanol ymateb iddynt. Roedd rhai ymgeiswyr yn cysoni safbwyntiau Bwdhaidd â rhai Dyneiddiol / anffyddiaeth/atheïstaeth drwy nodi bod Damcaniaeth y Glec Fawr yn dderbyniol iddyn nhw. Roedd rhai ymgeiswyr yn gallu dod i gasgliad drwy ystyried a oedd hanesion y creu yn parhau i fod yn ystyrion er bod gwyddoniaeth wedi 'gwrthbrofi' hynny. Roedd atebion llai effeithiol yn ddisgrifiadol gydag ymgeiswyr yn ail-ddweud hanes 7 dydd y creu yn Genesis. Gwrthododd llawer o ymgeiswyr hanesion y creu oherwydd eu barn bersonol ynghylch gwyddoniaeth a chrefydd, gan fetu â mynd i'r afael â'r cwestiwn.
- 4. (a)** Yn gyffredinol, ni atebwyd y cwestiwn hwn yn dda. Gwnaeth llawer o ymgeiswyr gysylltu cyfiawnder â dial neu 'dalu'r pwyth yn ôl', tra bod llawer wedi methu â'i ateb o gwbl. Mae cyfiawnder yn gysyniad allweddol felly roedd disgwyl cael diffiniad ac enghraifft.
- (b)** Ni wnaeth llawer o ymgeiswyr roi cynnig ar y cwestiwn hwn – o bosibl oherwydd diffyg adolygu neu broblem amseru. Roedd llawer o ymgeiswyr yn gallu disgrifio rhai agweddau ar rôl caplan mewn carchar ond cafodd llawer drafferth cynnwys unrhyw bwyntiau crefyddol. Roedd llawer o atebion yn darllen fel rhestr felly nid oedd modd cyrraedd band uwch na Band 2.
- (c)** Gwnaeth y rhan fwyaf o ymgeiswyr ddilyn y cyfarwyddyd. Roedd rhai atebion yn cynnwys safbwyntiau heddychol y Crynwyr tuag at wrthdaro, a rhai o'r amodau ar gyfer Rhyfel Cyfiawn. Roedd atebion gwell yn defnyddio enghraifft o'r Iesu ac yn cyfeirio at ddysgeidiaethau am faddeuant yn ogystal â'r rhai am heddwch. Roedd rhai ymgeiswyr yn deall y term 'gwrthdaro' yn eang iawn ac ysgrifennu am wrthdaro mewn perthnasoedd a rhoi enghreifftiau o faddeuant (e.e. Gee Walker), tra ysgrifennodd ymgeiswyr eraill am ryfel a heddwch yn unig. Roedd yr atebion o safbwynt Bwdhaidd yn gyffredinol iawn gan wneud y cysylltiad rhwng heddychiaeth a'r argymhelliad cyntaf. Ni chyfeiriwyd at ysgrythur Fwdhaidd nac at unrhyw weithgareddau heddwch Bwdhaidd penodol.
- (ch)** Gwnaeth yr ymgeiswyr a oedd wedi mynd i'r afael â'r gosodiad yn eithaf da ar y cyfan. Roedd rhai yn medru tynnu ar ddysgeidiaethau Bwdhaidd ynglŷn â dioddefaint er mwyn gwneud y pwynt bod dioddefaint yn anochel. Cafodd llawer drafferth dangos sut gallai credoau Cristnogol helpu. Gwnaeth rhai ymgeiswyr ddefnyddio stori Job, ond gwnaeth llawer ohonynt gyfyngu eu hateb i ail-adrodd y stori heb ddod i gasgliad ynglŷn â'i gwerth. Roedd yr atebion gwell yn gwneud cysylltiadau o bob rhan o'r cwrs, ac yn defnyddio themâu a drafodwyd eisoes yng nghwestiwn 1d (gweddi) a chwestiwn 2ch (dioddefaint). Roedd yr atebion gwannach yn methu â chrybwyll credoau crefyddol penodol. Roedd llawer o'r atebion yn gyffredinol iawn. Roedd atebion nifer bach o ymgeiswyr yn cynnwys dadleuon ynghylch ewthanasia, ac roedd yn ymddangos fel pe baent wedi dysgu ateb wedi'i baratoi ymlaen llaw (ar gyfer C3).



CBAC  
245 Rhodfa'r Gorllewin  
Caerdydd CF5 2YX  
Rhif Ffôn 029 2026 5000  
Ffacs 029 2057 5994  
E-bost: [arholiadau@cbac.co.uk](mailto:arholiadau@cbac.co.uk)  
gwefan: [www.cbac.co.uk](http://www.cbac.co.uk)